

Beibl i Blant yn cyflwyno



Y tywysog yn troi'n fugail



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: M. Maillot; Lazarus
addaswyd gan: E. Frischbutter; Sarah S;
Alastair P.
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada
©2021 Bible for Children, Inc.

Trwydded: mae gennych hawl i gopio neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

1




Un diwrnod gwelodd Moses un
o'r Eifftiaid yn curo caethwas
Hebreig. Er bod Moses
wedi tyfu fyny fel
tywysog ym mhalas y
Pharo ac wedi cael
ei addysg yno,
roedd e
hefyd yn
Hebrëwr.
Roedd yn

rhaid iddo
helpu'r caethwas!

2

Edrychodd o'i amgylch yn sydyn i wneud yn siŵr fod neb yn ei weld. Yna ymosododd ar reolwr creulon y caethweision. Yn ystod yr ymladd, lladdodd Moses yr Eifftiwr. Claddodd y corff yn gyflym.




3

Y diwrnod wedyn, gwelodd Moses ddau Hebrëwr yn ymladd. Ceisiodd eu stopio. Dywedodd un, "Wyt ti am fy lladd i, fel yr Eifftiwr?" Roedd gan Moses ofn. Roedd pawb yn gwybod beth oedd wedi digwydd. Roedd y Pharo'n gwybod. Roedd yn rhaid i Moses ddianc. Aeth i wlad o'r enw Midian.



4

Tra roedd Moses yn gorffwyo wrth ymyl ffynnon, daeth saith merch offeiriad Midian i nôl dŵr ar gyfer anifeiliaid eu tad.



5

Ceisiodd y bugeiliaid eraill eu gwthio i'r ochr. Fe wnaeth Moses amddiffyn y merched a'u cynorthwyo.



6


"Rydych chi nôl yn gynnar!" dywedodd Reuel, tad y merched. Wedi clywed pam, dywedodd, "Dewch â'r dyn yma." Aeth Moses i fyw gyda Reuel, oedd hefyd yn cael ei alw'n Jethro.



7

Yn ddiweddarach, priododd Moses gyda merch hynaf Reuel.

Bu farw'r Pharo yn yr Aifft. Roedd pobl Dduw, yr Hebreaid, yn dal yn gaethweision. Roedden nhw'n cwyno wrth iddyn nhw ddioddef!



Fe wnaethon nhw weddio am help gan Dduw! Clywodd Duw eu gweddiau.

8


Doedd Moses ddim yn gwybod hyn, ond roedd Duw yn bwriadu ei ddefnyddio i helpu'r Hebreaid caeth. Roedd 40 o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i Moses adael yr Aifft. Roedd yn fugail ar anifeiliaid Reuel. Mae'n siŵr ei fod yn



hiraethu am ei bobl ei hun yn yr Aifft.


9

Un diwrnod gwelodd Moses goeden fach yn llosgi. Ond doedd y tân ddim yn dinistrio'r berth. Penderfynodd Moses weld pam.




10

Wrth i Moses ddod yn nes, clywodd Duw yn galw arno o'r berth. "Moses!" "Dyma fi," atebodd Moses. "Paid dod yn rhy agos," meddai Duw. "Tynn dy sandalau - rwy'ti'n sefyll ar dir cysegredig."



11

"Rydw i am dy anfon at Pharo er mwyn arwain fy mhobl allan o'r Aifft," dywedodd Duw. Ond roedd gan Moses ofn.



12

Yna dangosodd Duw ei allu mawr i Moses. Trodd ffon Moses yn neidr.



13

Pan afaelodd Moses yng nghynffon y neidr a'i chodi, newidodd yn ffon eto. Rhoddodd Duw arwydd arall.



14


"Rho dy law ar dy frest," gorchmynnodd. Gwnaeth Moses hyn. Trodd ei law yn wyn gyda'r gwahanglwyf.



Pan wnaeth yr un peth eto, roedd ei law wedi gwella.



Roedd Moses yn dal i ddweud na. "Dydw i ddim yn gallu siarad yn dda," meddai wrth Dduw. Dechreuodd Duw fynd yn flin. "Fe wna i ddefnyddio dy frawd Aaron. Bydd e'n siarad drosot ti."



Aeth Moses at Jethro, pacio ei fag a gadael am yr Aifft.



Cafodd brawd Moses, Aaron, ei arwain gan Dduw i gyfarfod Moses yn y mynyddoedd. Dywedodd Moses wrth Aaron am gynllun Duw i ryddhau'r Hebreaid o afael yr Eifftiaid. Aeth y ddau ohonyn nhw i rannu'r newyddion gydag arweinwyr yr Hebreaid. Pan ddangosodd Moses arwyddion Duw i'r arweinwyr hyn, fe wnaethon nhw ddeall y byddai Duw yn eu helpu. Fe wnaeth pawb blygu lawr i addoli.




Aeth Moses ac Aaron yn ddewr at Pharo a dweud wrtho, "Mae Duw yn dweud, 'Gad i'm pobl fynd'".



"Na wnaf," oedd ateb y Pharo. Doedd e ddim am ufuddhau i Dduw. Byddai'n rhaid i Dduw ddefnyddio ei allu mawr

i newid meddwl y Pharo.



21

Y tywysog yn troi'n fugail

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Exodus 2-5

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

22

Y Diwedd

10



60

23

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16

24